



Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder



Swyddfa
Farnwrol

Diwygio'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Ymateb i'r Ymgynghoriad ar strwythurau
gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

Asesiad o Effaith ar y Gymraeg Diwygiedig

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg (WLIA) hwn yn nodi asesiad ar y cyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF), a'r Swyddfa Farnwrol (JO) – ar ran yr Uwch Farnwriaeth – o'r effeithiau ar y Gymraeg sy'n deillio o'r cynigion terfynol yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddiwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs).
2. Mae'n archwilio effeithiau'r cynigion terfynol i ddiwygio LJAs yng Nghymru ar y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor o drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
3. Mae'r hawl statudol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru yn parhau'n ddigyfnewid, a bydd GLITEF yn parhau i gynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn cynnal yr hawl honno.

Diwygio'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Ymateb i'r Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

Asesiad o Effaith ar y Gymraeg Diwygiedig

4. Rydym yn cydnabod adborth rhanddeiliaid nad oedd WLIA ar waith ar union adeg lansio'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd asesiad yn ystod yr ymgynghoriad (16 Ebrill 2025), gyda'r MoJ yn ymrwymo'n gyhoeddus i gyhoeddi WLIA pellach ochr yn ochr â'r cynigion terfynol, a gellir ei weld yma:
<https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas>
5. Gan adlewyrchu ymatebion yr ymgynghoriad, byddwn yn cadw pob un o'r 75 o ffiniau LJA presennol fel "Meinciau" gweinyddol, gan gynnwys y rhai yng Nghymru (paragraff 22 o'r ymateb i'r ymgynghoriad).
6. Gan adlewyrchu ymatebion yr ymgynghoriad, nid ydym yn bwriadu uno nifer o LJAs yng Ngogledd Cymru, gan fynd i'r afael â phryderon ynghylch gwanhau mynediad at ynadon a staff Cymraeg.
7. Nid ydym yn rhagweld effeithiau andwyol ar ddarpariaeth y Gymraeg o ganlyniad i'r dull diwygiedig a ddisgrifir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, er y byddwn yn parhau i fonitro capasiti ar gyfer darpariaeth.

Cefndir a Chwmpas

8. Ymgynghorodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Farnwriaeth ar opsiynau i ddiwygio nifer a threfniant LJAs yng Nghymru, yn amrywio o gadw'r sefyllfa bresennol i strwythurau mwy cyfunol, er mwyn cefnogi dyrannu effeithlon ynadon, cynghorwyr cyfreithiol a rhestru achosion.
9. Gan nad yw'r model terfynol bellach yn newid ffiniau Cymru, mae'r WLIA bellach yn canolbwyntio ar ddyrannu, mynediad parhaus at achosion Cymraeg eu hiaith, a sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith.

Cyd-destun Cyfreithiol a Pholisi

10. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (adran 22(1)) yn darparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru. Mae Cynllun Iaith Gymraeg GLITEF a phrotocolau ymarfer yn llywodraethu darpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn y llysoedd. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a threfniadau monitro yn sicrhau bod ymgynghoriadau a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, a bod gallu'r Gymraeg yn cael ei olrhain ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i hasiantaethau.
11. Mae ymateb yr ymgynghoriad ar Ddiwygio LJAs yn ailddatgan yn benodol na ddylai trefniadau dyrannu danseilio hawliau'r Gymraeg, a bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i ffiniau neu drefniadau dyrannu yn y dyfodol ddangos nad ydynt yn rhwystro mynediad at y Gymraeg yn y llysoedd (paragraff 246 a'r adran Cydraddoldeb).

Asesiad o Effeithiau ar y Gymraeg

12. Gan gyfeirio at yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg blaenorol, rydym wedi cynnal yr asesiad hwn drwy ddibynnu ar ffynonellau dogfennol presennol yn unig. Nid yw'r asesiad hwn yn gofyn am, nac yn cynnwys, unrhyw fynediad newydd at systemau byw na data gweithredol.
13. Rydym yn rhagweld effaith niwtral ar ddefnydd y Gymraeg mewn achosion. Mae'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion yn parhau; rhaid i strategaethau rhestru barhau i gyfateb capasiti'r Gymraeg (barnwyr, cynghorwyr cyfreithiol a chyfieithwyr) ag achosion. Cynigiodd yr ymgynghoriad yn wreiddiol uno LJAs yn ardaloedd Caernarfon (Gogledd Cymru) a Sir Gaerfyrddin. Y prif bryder ynghylch uno yng Ngogledd Cymru oedd gwanhau crynodiad ynadon Cymraeg, gan gyfyngu ar y gallu i gefnogi defnyddwyr llys Cymraeg. Drwy beidio ag uno nifer o LJAs yng Ngogledd Cymru, mae'r model diwygiedig yn helpu i gadw crynodiadau o gapasiti barnwrol a staff Cymraeg, gan leihau'r risgiau gwanhau a nodwyd gan ymatebwyr o ganlyniad i gynnydd ym maint ffiniau a'r posibilrwydd o gynnydd mewn teithio.
14. O ran mynediad at Wasanaethau Cymraeg, bydd GLITEF yn parhau i ddarparu sianeli dwyieithog ac i sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus, ymgynghoriadau a hysbysiadau ar gael yn Gymraeg. Bydd ynadon Cymraeg yn parhau i gael eu dyrannu i lysoedd lle defnyddir y Gymraeg ac yn cadw'r hawl i eistedd mewn llysoedd Cymraeg lle bo hynny'n cael ei ffafrio (paragraff 246). Bydd yr holl ddeunyddiau sy'n ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad hefyd ar gael yn Gymraeg.
15. Rhaid i ddyrannu effeithlon ar draws LJAs gadw'r gallu i neilltuo ynadon a chynghorwyr cyfreithiol Cymraeg lle bo angen. Mae osgoi uno yng Ngogledd Cymru yn lleihau materion teithio a chwmpas i aelodau meinciau a staff Cymraeg, gan gefnogi darpariaeth amserol o wasanaethau Cymraeg a siarad Cymraeg mewn gwrandawiaadau. Fel arfer, ni ddisgwylir i ynadon deithio mwy na 60 munud o'u llys cartref, a fydd yn cefnogi ynadon Cymraeg i eistedd y rhan fwyaf o'u hamser mewn ardaloedd Cymraeg, gan sicrhau parhad darpariaeth gwasanaeth Cymraeg (paragraffau 76, 195, 201, 224, 230).

Mesurau Lliniaru a Gwelliannau

16. Bydd rheolaethau rhestru ac amserlennu yn parhau i nodi achosion sy'n gofyn am y Gymraeg a'u hamserlennu mewn lleoliadau/eisteddiadau gyda barnwyr a staff Cymraeg priodol, gan sicrhau darpariaeth cyfieithwyr lle bo angen. Bydd trefniadau diogelu dyrannu yn atal, i raddau helaeth, ynadon Cymraeg rhag cael eu lleoli'n rheolaidd y tu allan i lysoedd Cymraeg (paragraffau 76, 195, 201, 224, 230).
17. Bydd olrhain gallu staff ac ynadon yn parhau i gael ei gofnodi yn unol â phrosesau casglu data presennol.

18. Bydd ymatebion yr ymgynghoriad a deunyddiau sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd llwybrau ymholi yn Gymraeg yn parhau ar gael i gefnogi cyfathrebu dwyieithog.
19. Bydd canllawiau presennol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys – megis cyfarwyddiadau ymarfer a phrotocolau – yn parhau i gael eu hamlygu i dimau gweithredol. Bydd unrhyw faterion capasiti sy'n codi yn parhau i gael eu rheoli drwy brosesau rhestru presennol.
20. Mae cadw pob un o ffiniau LJAs Cymru yn lleihau'r risg y byddai ardaloedd mwy, wedi'u huno, yn gwanhau capasiti'r Gymraeg (paragraff 22).

Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

21. Bydd monitro'n parhau i dynnu ar ffynonellau data presennol a ddefnyddir eisoes gan GLITEF ar gyfer asesiadau'r Gymraeg, gan gynnwys cofnodion mewnol o staff ac ynadon Cymraeg, staff sy'n dysgu Cymraeg, ac ystadegau ar ddefnydd y Gymraeg mewn gwrandawiadau llys.
22. Bydd monitro hefyd yn cynnwys ymwybyddiaeth o alluogwyr gweithredol megis offer cyfieithu sydd ar gael a gwasanaethau dan gontract perthnasol.
23. Bydd adborth a ddarperir drwy ymgynghoriadau neu lwybrau cwynion safonol GLITEF mewn perthynas â mynediad at y Gymraeg yn parhau i lywio'r asesiad parhaus o effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

24. Bydd yr holl gyfathrebiadau sy'n wynebu'r cyhoedd (gan gynnwys yr ymateb i'r ymgynghoriad) yn ddwyieithog ac yn nodi'n glir y llwybrau cyswllt Cymraeg.
25. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn datgan yn glir y bwriad i gadw ffiniau Cymru a diogelu mynediad at y Gymraeg.

Casgliad

26. Mae cadw pob un o ffiniau LJAs Cymru, cyfyngu disgwyliadau teithio i 60 munud, a gwarantu'n benodol hawliau dyrannu yn y Gymraeg gyda'i gilydd yn golygu nad yw'r model wedi'i ddiweddarau yn debygol o greu effeithiau andwyol ar ddarpariaeth y Gymraeg. Gyda'r fframwaith statudol presennol ac arferion darpariaeth GLITEF ar waith, dylai'r cynigion gynnal neu wella mynediad at gyfiawnder yn y Gymraeg. Mae'r cynigion hyn yn cynnal yr egwyddor o drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
27. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn cynnwys Asesiad o Effaith ar y Gymraeg llawn.